Despite this uncertainty, small charities continue to do their best to meet need and adapt to evolving challenges. However, chronic issues of underfunding and an expectation that the third sector will continue to fill gaps need to change; some charities are already closing their doors. A longer-term approach is needed to ensure sustainability of valuable services.

The policy landscape is moving towards a procurement agenda in which fair work, equity, and wellbeing impacts are key. The public and third sectors will need to work together to enact this new framework and to ensure that people can access the support they need when they need it.

We invite you to think about the question above and use this resource to guide important conversations about commissioning of services in your area.

## Vision

Small charities want to make sure that the valuable work they do is recognised and rewarded fairly by commissioning bodies who treat charities as equal partners, and they want commissioning processes to be equitable, proportionate, and flexible.

This ambition links with policy reform currently being undertaken by Welsh Government, with guidance to be refined with the public and third sectors. Now is an ideal time to strengthen dialogue between stakeholders interested in commissioning.

## Turning policy into practice and practice into policy

Lloyds Bank Foundation is keen to support commissioning conversations across the country. If you work for a CVC, a small charity, or for a commissioning body that wants to learn from good practice, we would like to support you to host collaborative commissioning conversations in your area. We're offering financial and practical support for up to four collaborations initially.

If you'd like to take up this offer or find out more, contact khuxleyroberts@lloydsbankfoundation.org.uk

## Recommendations from the Welsh Small Charities Forum

This is what charities need commissioners to do so that they can deliver the services that communities need.

## Bring partners together to discuss: what would these look like in practice in your area?

| Welsh Government Funding Code of Practice principle | To small charities, this means: | Good practice looks like |
|---|---|---|
| Early and continuous dialogue | Engaging and **listening** is key to delivering effective services that meet need. | **1. Meaningful dialogue** with communities that draws on real insight and depth of knowledge within small charities.<br>**2. Lived experience shapes decisions** – service users and frontline staff are heard and valued. |
| Equity | **Proportionality** is key to maximising small charities' capacity to bid, partner, and deliver.<br>**Collaboration** and working in partnership are desirable but can be challenging. | **3. Tendering and monitoring processes** are **proportionate** to the amount of funding offered and are **inclusive** for smaller organisations.<br>**4. Commissioners and infrastructure organisations support partnership building** e.g. where appropriate, commissioners consider alliancing or facilitate dialogue. |
| Valuing and outcomes | Commissioners understand the **added social value and wellbeing impacts** small charities contribute, and how they help achieve strategic objectives and national ambitions. | **5.** The **additionality** offered by small and local charities, especially those led by and for the communities they serve, is considered when agreeing the **most advantageous tender**.<br>**6. Sharing best practice** to prevent duplication, minimise wasted resource, and maximise impact. |
| Flexibility | **Flexibility** is key to maximising small charities' **capacity** to deliver and to develop **innovative** solutions to emerging challenges. | **7. Flexibility is built into processes** with opportunities for adjustments.<br>**8.** Small charities are **trusted to adapt and innovate**, responding to need by drawing on their lived- and learned experience. |
| Appropriate | Funding is **sustainable** and contracts are **fair**. | **9.** Funding reflects the **full cost of services** and considers **inflation**.<br>**10. Contract-length** corresponds with the length of time it realistically takes to deliver the service / outcomes. |

**lloydsbankfoundation.org.uk**
khuxleyroberts@lloydsbankfoundation.org.uk

Registered Charity No. 327114

Company Limited by Guarantee Registered in England and Wales Company No. 1971242

# Finding the Good

## What really is the most valuable tender?



The **Welsh Small Charities Forum**, supported by Lloyds Bank Foundation, is keen to drive much-needed conversation about **commissioning of services in Wales**.

Currently, charities experience a mixture of commissioning practice, leading to uncertainty, inconsistency, reduced resilience, poorer service delivery, and harm to communities.

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

# Dod o hyd i’r Da

## Beth yw'r tendr mwyaf gwerthfawr?



Mae **Fforwm Elusennau Bach Cymru**, gyda chefnogaeth Lloyds Bank Foundation, yn awyddus i sbarduno sgwrs y mae mawr ei hangen am **gomisiynu gwasanaethau**.

Ar hyn o bryd, mae cymysgedd o arferion comisiynu, sy’n arwain at ansicrwydd, diffyg cysondeb, straen yn y sector, llai o wydnwch, llai o ddarpariaeth gwasanaethau, a niwed i gymunedau.

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mae elusennau bach yn parhau i wneud eu gorau i ddiwallu angen ledled y wlad ac yn parhau i addasu i heriau sy'n esblygu. Fodd bynnag, mae angen i faterion cronig tanariannu a disgwyliad y bydd y trydydd sector yn parhau i lenwi bylchau newid; mae rhai elusennau eisoes yn cau eu drysau. Mae angen dull craffach o weithredu er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau gwerthfawr.

Mae'r dirwedd bolisi yn symud tuag at agenda caffael, lle mae gwaith teg, tegwch ac effeithiau lles yn allweddol. Bydd angen i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydweithio i sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y cymorth maen nhw ei angen pan fyddan nhw ei angen.

Rydym ni’n eich gwahodd i feddwl am y cwestiwn uchod a defnyddio'r adnodd hwn i lywio sgyrsiau pwysig am gomisiynu gwasanaethau yn eich ardal.

## Gweledigaeth

Mae elusennau bach eisiau sicrhau bod y gwaith gwerthfawr y maent yn ei wneud yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo'n deg drwy gomisiynu cyrff sy'n trin elusennau fel partneriaid cyfartal, ac maent am i brosesau comisiynu fod yn deg, yn gymesur ac yn hyblyg.

Mae'r uchelgais hwn yn cysylltu'n glir â'r diwygio polisi sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, gyda chanllawiau eto i'w mireinio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae nawr yn amser delfrydol i gryfhau deialog rhwng rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn comisiynu.

## Troi polisi'n arfer ac arfer yn bolisi

Mae Lloyds Bank Foundation yn awyddus i gefnogi sgyrsiau comisiynu ar draws y wlad. Os ydych chi'n gweithio i CVC, elusen fach, neu i gorff comisiynu sydd eisiau dysgu o arfer da, hoffem eich cefnogi i gynnal sgyrsiau comisiynu yn eich ardal. Byddem yn eich annog i wneud hyn ar y cyd. Er mwyn sicrhau'r gwersi gorau o'r sgyrsiau hyn, byddwn yn cymryd ymagwedd fesul cam, sy'n golygu y byddwn yn cynnig cymorth ariannol ac ymarferol i hyd at bedwar cydweithfa i ddechrau. Os hoffech wybod mwy, cysylltwch â khuxleyroberts@lloydsbankfoundation.org.uk

## Argymhellion gan Fforwm Elusennau Bach Cymru

Dyma beth mae elusennau angen i gomisiynwyr ei wneud fel y gallant ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar gymunedau.

## Sut fyddai’r rhain yn edrych yn ymarferol yn eich ardal chi?

| Egwyddor Cod Ymarfer Cyllid Llywodraeth Cymru | I elusennau bach, mae hyn yn golygu: | Good practice looks like |
|---|---|---|
| Deialog gynnar a pharhaus | Mae ymgysylltu a **gwrando** yn allweddol i ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu'r angen. | **1. Deialog ystyrlon** gyda chymunedau sy'n manteisio ar fewnwelediad gwirioneddol a dyfnder gwybodaeth o fewn elusennau bach, y tu hwnt i arolygon blynyddol neu ymarferion ymgynghori.<br>**2. Mae profiad byw yn siapio penderfyniadau** – mae defnyddwyr gwasanaeth a staff rheng flaen yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi. |
| Tegwch | Mae **cymesuredd** yn allweddol i gynyddu gallu elusennau bach i gynnig, creu partneriaeth a darparu.<br>Mae **cydweithredu** a gweithio mewn partneriaeth yn ddymunol ond gall fod yn heriol. | **3.** Mae **prosesau tendro a monitro** yn **gymesur** â faint o gyllid a gynigir ac maen nhw’n **gynhwysol** ar gyfer sefydliadau llai, y mae prosesau llafurus yn cael effaith anghymesur ar eu cyfer ac yn rhwystr iddynt.<br>**4. Mae comisiynwyr a sefydliadau seilwaith yn cefnogi adeiladu partneriaeth** e.e. lle bo'n briodol, mae comisiynwyr yn ystyried cysylltu neu hwyluso deialog gystadleuol. |
| Gosod gwerth a chanlyniadau | Mae'r Comisiynwyr yn deall yr **effeithiau ychwanegol ar werth cymdeithasol / lles** y mae elusennau bach ond hanfodol yn eu cyfrannu, a sut maen nhw'n helpu i gyflawni amcanion strategol ac uchelgeisiau cenedlaethol. | **5.** Mae'r **ychwanegiad** a gynigir gan elusennau bach a lleol, yn enwedig y rhai sy'n cael eu harwain gan ac ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn cael ei ystyried wrth gytuno ar y **tendr mwyaf manteisiol**.<br>**6. Rhannu arfer gorau** a myfyrio ar heriau i atal dyblygu, lleihau adnoddau sy'n cael eu gwastraffu, a sicrhau'r effaith fwyaf. |
| Hyblygrwydd | Mae **hyblygrwydd** yn allweddol i gynyddu **gallu** elusennau bach i gyflawni a datblygu atebion **arloesol** i heriau sy'n dod i'r amlwg. | **7.** Mae **hyblygrwydd wedi’i wreiddio**, gyda chyfleoedd ar gyfer addasiadau.<br>**8.** Gellir **ymddiried mewn elusennau bach i addasu ac arloesi**, gan ymateb i angen trwy fanteisio ar eu profiad byw a dysgedig. |
| Priodol | Mae cyllid yn **gynaliadwy** ac mae contractau'n **deg**. | **9.** Mae'r cyllid yn adlewyrchu **cost lawn gwasanaethau** ac yn ystyried chwyddiant.<br>**10.** Mae **hyd y contract** yn cyfateb i'r amser mae'n ei gymryd yn realistig i ddarparu'r gwasanaeth / canlyniadau. |